

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Gofal
Dyddiad	14 Ionawr 2021
Teitl	Adroddiad ar Wasanaeth Therapi Galwedigaethol (ThG), Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.
Awdur	Matthew Hawes, Arweinydd Therapi Galwedigaethol
Aelod	Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig trosolwg o gyfraniad Therapyddion Galwedigaethol yng Nghyngor Gwynedd.

2. Cyflwyniad

2.1 Pwrpas y Timau Adnoddau Cymunedol yw "Helpwch fi i fyw fy mywyd fel yr hoffwn i ei fyw!" Mae gan Therapi Galwedigaethol rôl bwysig iawn yn helpu trigolion Gwynedd i gyflawni eu deilliannau personol drwy hyrwyddo annibyniaeth.

2.2 (ThG) yw asesu a thrin cyflyrau corfforol a seiciatrig gan ddefnyddio gweithgarwch penodol a phwrpasol er mwyn atal anabledd a hyrwyddo gweithrediad annibynnol ym mhob agwedd o fywyd bob dydd. Mae ThG yn ymarfer sy'n canolbwyntio ar y cleient sy'n rhoi gwerth ar y cynnydd a wneir tuag at nodau'r cleient. Mae hon yn agwedd sylfaenol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sy'n cyflawni "Beth sy'n Bwysig" yn y pen draw. Rydym yn gweithio gyda chleientiaid o bob grŵp oedran o enedigaeth hyd at farwolaeth a chyda phob math o gyflyrau ac amhariadau.

3. Trosolwg

3.1 Cafodd Arweinydd ThG ei benodi ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ym mis Chwefror 2020, yn union cyn y pandemig COVID-19 presennol. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cael ei drawsnewid yn sylweddol. Ymddeolodd dau uwch aelod uchel eu parch o'r Tîm ThG yn ystod y 12 mis diwethaf. Er bod hyn wedi bod yn anodd, mae'r gwasanaeth yn symud ymlaen gydag ymagwedd fodern, gan sicrhau deilliannau o ansawdd uchel i unigolion, gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a hefyd yn lleihau'r costau sylweddol a chynyddol ar becynnau gofal. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen i ni fod yn llawer mwy rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.

- 3.2 Bu'r gwasanaeth hefyd yn llwyddiannus yn recriwtio 0.5 swydd i'r Adran Plant i gefnogi 1 ThG Pediatrig ar gyfer Awdurdod Lleol Gwynedd gyfan. Bydd hyn yn arwain at welliant sylweddol yn y maes hwn.
- 3.3 ThG yw un o'r unig Broffesiynau sy'n gysylltiedig ag Iechyd; sy'n cael ei gyflogi gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd hefyd. Gall y rolau rhwng y ddau sefydliad fod yn ddryslyd ac aneglur ar adegau. Y flaenoriaeth yw gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn Iechyd i gryfhau cydweithio, cael gwared ar rwystrau hanesyddol a chael dealltwriaeth gliriach o'r rolau o fewn y gymuned, a sut allwn gydweithio orau wrth symud ymlaen. Mae llwybr cyfeirio newydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â chydweithwyr Iechyd sydd yn nodi pa sefydliad fydd yn gyfrifol am yr amrywiol gyfeiriadau. Rydym hefyd wedi helpu i lenwi bylchau rhwng gwasanaethau yn ystod y pandemig i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth. Mae mwy o waith i'w wneud ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaeth Iechyd ac i ddatblygu gwasanaeth ThG integredig.
- 3.4 Yn y gorffennol, bu recriwtio Therapyddion Galwedigaethol yn her fawr i Wynedd. Bellach, mae'r gwasanaeth ThG o fewn Awdurdod Lleol Gwynedd wedi'i staffio'n llawn a bum yn llwyddiannus yn canfod staff ar gyfer absenoldeb mamolaeth. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol yn annog lleoliadau myfyrwyr ar y cyd â Phrifysgol Glyndŵr, gan fod hyn nid yn unig yn ymarfer da, ond mae hefyd yn helpu i recriwtio staff cymwys. Bellach, mae gennym Therapyddion Galwedigaethol sydd â diddordeb mewn ymuno â'n tîm.
- 3.5 Ar hyn o bryd, tua 3% o weithlu Awdurdod Lleol Gwynedd, at ei gilydd, yw Therapyddion Galwedigaethol. Fodd bynnag, mae ThG yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda thua 35-40% o'r holl gyfeiriadau i'r awdurdod lleol. (Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol)
- 3.6 Rydym yn rhagweld cynnydd o 15% o ran y gyfradd cyfeirio am ymyrraeth gan ThG gan yr awdurdod lleol yn 2021-2022. Y prif reswm am hyn yw colli hyder / symudedd a datgyflyru gan unigolion bregus sydd wedi bod yn gwarchod a ddim yn gwneud ymarfer corff, nac yn cerdded i'r siopau ac yn colli'u hannibyniaeth. Bydd rôl hanfodol gan ThG i gefnogi unigolion gydag Adferiad Ôl-Covid-19 (COVID Hir). Mae pwyslais mawr gan Lywodraeth Cymru ar hawliau pawb i ddarpariaeth Adferiad a Therapi Galwedigaethol a bydd ymyrraeth ar flaen y gad wrth gyflawni hyn.
- 3.7 Mae ymyrraethau ThG yn canolbwyntio ar addasu'r amgylchedd, addasu'r dasg, dysgu sgiliau newydd neu wahanol, addysgu cleientiaid / teuluoedd a staff gofal er mwyn cynyddu cyfranogiad a gweithrediad wrth gyflawni gweithgareddau bob dydd. Mae'r

gwasanaeth ThG yn ymdrin ag ystod eang o faterion. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ond mae'n rhoi syniad o'r ystod o waith.

- Darparu offer i gadw pobl yn ddiogel ac yn eu cartrefi eu hunain mor annibynnol â phosib;
- Gwneud argymhellion ar gyfer darparu addasiadau addas i'r cartref;
- Darparu asesiadau risg codi a thrin, a darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r offer i deuluoedd a staff gofal;
- Diogelu oedolion a defnyddwyr gwasanaeth bregus;
- Atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty;
- Hwyluso trefniadau gadael yr ysbyty;
- Cefnogi cleientiaid mewn lleoliadau gofal cartref, yn darparu cefnogaeth i staff gofal cartref;
- Cynorthwyo gydag adferiad;
- Anableddau Dysgu;
- Pediatreg.

4. Symud Ymlaen

4.1 Y weledigaeth yw parhau gyda gwaith ThG o alluogi i unigolion fyw mor annibynnol â phosib yn y gymuned a datblygu gwasanaeth rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol. Mae hyn yn heriol oherwydd y niferoedd cyfyngedig o staff ThG.

4.2 Mae yna nifer o ddulliau y gellir eu dilyn fydd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac, ar yr un pryd, yn lleihau costau i'r awdurdod lleol wrth symud ymlaen. Os na fyddwn yn gwneud rhywbeth ac yn aros yn ein hunfan, bydd y cynnydd a ragwelir mewn costau gofal oddeutu 15-20% yn fwy na'r gwariant presennol. Yn ogystal â hynny, mae yna risg y bydd unigolion yn mynd yn fwy dibynnol.

4.3 Gofal Digonol a Symud a Thrin

Mae Symud a Thrin wedi cael ei nodi fel maes sydd angen ei wella er mwyn cefnogi unigolion a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Y weledigaeth yw creu swyddi ThG symud a thrin o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Bydd hyn yn galluogi i berson dynodedig ganolbwyntio ar Ofal Digonol a Symud a Thrin yn Fwy Diogel. Mae'r achosion hyn yn fwy cymhleth ac yn cymryd mwy o amser ond wrth gael eu cyflawni'n effeithiol gallant effeithio'n sylweddol ar ddeilliannau personol unigolion, ac ar arbedion ar becynnau gofal presennol. Mae rhai achosion diweddar yng Ngwynedd wedi dangos arbedion o hyd at £18,000 bob blwyddyn mewn costau gofal ar bob pecyn gofal (gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad 1). Gall y swyddi hyn ddarparu mwy o hyfforddiant effeithiol i staff gofal a gofalywyr Anffurfiol a darparu cysylltiadau gwell gyda chartrefi gofal nyrsio a phreswyl. Gallant hefyd hwyluso trefniadau gadael yr

ysbyty'n amserol drwy ddilyn unigolion i'r ysbyty, trefnu'r offer a'r hyfforddiant ar gyfer gadael a chynnal asesiad ar ôl gadael yr ysbyty. Bydd hyn yn lleihau niferoedd yr Achosion sy'n Methu â Gadael yr Ysbyty yn sylweddol.

4.4 Ar hyn o bryd, mae ceisiadau'n cael eu gwneud am gyllid ychwanegol i dreialu'r prosiect hwn.

4.5 Adferiad a Galluogi

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, ceir pwyslais mawr gan Lywodraeth Cymru ar hyrwyddo hawliau pobl i Adferiad ac rydym yn rhagweld cynnydd o 15-20% yn y galw am y gwasanaeth eleni.

4.6 Bydd y gwasanaeth yn ymdrechu i ganolbwyntio mwy ar rôl alluogi ac adfer y ThG yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae yna fuddion sylweddol o gael gwasanaethau galluogi a arweinir gan therapi lle mae therapyddion yn gweithio'n agos gydag unigolion a darparwyr gofal i osod amcanion cyraeddadwy clir ac i fonitro deilliannau. Mae'r gwasanaeth ThG yn gweithio gydag un asiantaeth gofal ar hyn o bryd i beilota'r ffordd hon o weithio ac mae canlyniadau cychwynnol yn gadarnhaol.

4.7 Atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty a hwyluso trefniadau gadael yr ysbyty'n amserol (gadael i asesu)

Ein nod yw cadw pobl i fyw adref yn annibynnol ac yn ddiogel yn hirach. Mae rôl hollbwysig gan ThG i gyflawni'r nod hwn ac wrth weithio'n agos gydag ysbytai i sicrhau bod unigolion yn gallu dychwelyd adref cyn gynted â phosib ar ôl bod yn wael. Byddwn hefyd angen mynediad cyflym at offer addas. Mae adolygiad o'r ddarpariaeth offer ar draws Gogledd Cymru wedi cael ei oedi oherwydd y pandemig. Yn y cyfamser, mae Gwynedd wedi gweithio'n agos gyda Byw Bywyd i sicrhau bod offer yn cael ei ddanfôn yn amserol i bob rhan o'r sir.

4.8 Mae ymglymiad ThG wedi bod yn hanfodol mewn cynllun peilot yng ngogledd Gwynedd yn ystod y pandemig, yn gweithio'n agos gydag Ysbyty Gwynedd ac Asiantaeth Gofal Seibiant i hwyluso trefniadau gadael yr ysbytai'n amserol ac i ddarparu cefnogaeth galluogi byrdymor i unigolion.

4.9 Yn y pen draw, bydd Therapyddion Galwedigaethol yn chwarae rhan hanfodol wrth siapio ein hawdurdod lleol wrth symud ymlaen. Ein gweledigaeth yw bod yr Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru o ran ei ddarpariaeth ThG a chyflawni'r Hyn sy'n Bwysig.

